


Fin Bro

Newyddion

Ysgol Bro Hyddgen

News



2

Gair gan y Pennaeth / Letter from the Headteacher

Annwyl Riant/Ofalwr

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod y cyfnodau anodd diweddar yn dilyn y tywydd garw a'r gweithredu diwydiannol. Gobeithio y cawn gyfnod mwy sefydlog y tymor nesaf.

Staffio

Ddiwedd y tymor hwn bydd Miss Erin Wyn Good yn gorffen yn swyddogol hefo ni yma, ond bydd yn parhau i ddysgu blynyddoedd 10 ac 11 tan y Sulgwyn. Hoffwn ddiolch iddi am ei chyfraniad i'r ysgol; ei llongyfarch ar gael ei phenodi yn bennaeth cyfadrn Gwyddoniaeth yn ysgol Gyfun Penweddig a dymuno'n dda iddi gyda'r her newydd.

Hoffwn hefyd ddymuno'n dda i Bethan Edwards sydd yn cychwyn ei chyfnod mamolaeth ddiwedd y tymor hwn.

Eisteddfod yr Urdd

Bu'n dymor prysur gyda nifer o weithgareddau allgyrsiol wedi'u darparu i'r plant gan gynnwys cyfle i gystadlu yn eisteddfodau'r Urdd. Hoffwn gymryd y cyfle i ddymuno'n dda i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanfair ym Muallt ac i ddiolch i'r holl staff sydd wedi rhoi o'u hamser er mwyn cynnal ymarferion.

Y Sinfonia Gymreig

Mae ein diolch ni'n fawr i Mark Eager a cherddorion proffesiynol y Sinfonia Gymreig am ddarparu cyfle i blant yr ysgol gael perfformio'n gyhoeddus dan adain y Sinfonia. Diolch hefyd i'r athrawon peripatetic am eu cefnogaeth diflino ac i Mrs James am gydlynu'r holl raglen.

Y Siarter Iaith

Un o flaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol yw sicrhau gwobr Efydd y Siarter Iaith. Ein bwriad felly yw hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd a'r cysyniad o aml ddiwylliant. Eisoes mae profiadau difyr a diddorol wedi'u darparu i'r plant megis sioeau Mewn Cymeriad, gig Candelas a gweithdai hwiangerddi gyda'r gantores Siân James – darllenwch yr hanes yn y rhifyn hwn o Ein Bro. Edrychwn ymlaen at wahodd Elin Fflur i'r ysgol ddydd Mercher, 18 Ebrill. Gwnawn ein gorau hefyd i'ch hysbysu am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn y gymuned; gweler yr hysbyseb i glywed am ddulliau arloesol Say Something in Welsh. Cofiwch hefyd am y linc ar ein gwefan: <https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/en/news/y-siarter-iaith>

Yn olaf hoffwn ddymuno'n dda i holl blant yr ysgol yn eu profion statudol a'u harholiadau allanol fydd yn cychwyn ym mis Mai. Cynghoraf hwynt oll i wneud yn fawr o'r amser rhwng nawr a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial ac nad ydynt yn cael eu siomi ar ddiwrnod canlyniadau.

Gan ddymuno Pasg hapus i chi,

Yn gywir

Dafydd M B Jones

Dear Parent/Carer

Firstly, I would like to thank you for your support and understanding during some recent difficult times following severe weather and industrial action. Hopefully we will have more stability next term.

Staffing

At the end of this term Miss Erin Good will officially be finishing with us and will start her new role as head of the Science faculty at Ysgol Penweddig. Fortunately, she will continue to teach Science to Year 10 and 11 until the Whitsun half term. I would like to thank her for her contribution to the school; to congratulate her on her promotion and wish her well with her new challenge.

I would also like to send my good wishes to Bethan Edwards as she starts her maternity leave.

Eisteddfod Activities

It's been a very busy term with many activities being provided for the children including opportunities to compete at the Urdd Eisteddfod. I would like to take this opportunity to wish all the best to those competing in the National Eisteddfod in Builth Wells in May and to thank those staff who have given of their time in order to arrange practices.

Welsh Sinfonia

I would like to thank Mark Eager and the Welsh Sinfonia musicians for providing valuable opportunities for the children to perform in public under the wing of the Welsh Sinfonia. I would also like to thank the peripatetic staff for their untiring support and Mrs James for coordinating the project.

The Welsh Language Charter

One of the school's priorities is to achieve the Welsh Language Charter Bronze Award. It is our aim to promote the value of bilingualism and the concept of multiculturalism. Many interesting and diverse experiences have already been provided to the children, such as In Character shows, the Candelas gig, Welsh nursery rhyme workshops with the singer Siân James – read all about these events in this edition of Ein Bro. We look forward to welcoming the singer Elin Fflur to the school in the near future. We will also try our best to inform you of opportunities to learn Welsh in the community; see the advert for 'An Innovative and Speedy Way to Learn Welsh: Say Something in Welsh'. See also the link on our website: <https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/cy/newyddion/y-siarter-iaith>

Finally, I would like to wish every success to all the children who are undertaking statutory tests and external exams in May. I encourage everyone to make the most of the time that they have between now and then, to revise thoroughly so that they reach their full potential and avoid disappointment come results day.

Wishing you a happy Easter,

Yours sincerely

Dafydd M B Jones



Dyddiadau Pwysig / Important Dates

Cynradd / Primary

3

29.03.18 10:00	Diwrnod adolygu Daearyddiaeth. Dewch a'ch nodiadau a chinio gyda chi. Byddwn yn adolygu Arfordiroedd, Prosesau Tectonig, a Lleoedd Newidiol. / <i>Revision day in preparation for Geography AS examinations. Bring lunch and all of your notes. We will be revising Changing Landscapes- Coasts and Tectonics, and Changing Places. Please ensure you attend this FREE revision day.</i>
20/04/2018 + 1/5/2018	Gala Nofio Powys 20/04/18 a 1/05/18 Canolfan Hamdden Maldwyn, Drenewydd <i>Powys Swimming Gala 20/04/18 & 1/05/18 Maldwyn Leisure Centre, Newtown</i>
29/06/2018	Gala Nofio Powys 29/06/18 Aberhonddu - Ffeinal / <i>Powys Swimming Gala 29/06/18 Brecon - Final</i>
2/5/18 - 9/5/18	Profion Cenedlaethol 2/5/18 - 9/5/18 / <i>National Tests 2/5/18 - 9/5/18</i>
16/4/18	Diwrnod trosglwyddo 5x60 / <i>5x60 transition day</i>
9/4/18	Diwrnod di-ddisgybl / <i>Non-pupil day.</i>
10/4/18	Ysgol i ddisgyblion / <i>School for pupils.</i>
16-20/4/18	Arholiadau mewnol Blwyddyn 10 / <i>Year 10 Internal Examinations.</i>
25/4/18 – 1/5/18	Profion Rhifedd a Darllen Bl 7,8 a 9 / <i>Literacy and Numeracy Tests Yr7,8 & 9.</i>
8/5/18 – 20/6/18	Arholiadau TGAU a Lefel A, A/S / <i>A, AS Level and GCSE Examinations.</i>
28/5/18 – 1/6/18	Hanner Tymor / <i>Half Term.</i>
20/7/18	Diwrnod ola'r tymor / <i>Last day of term.</i>

DEWCH AM BANED
A SGWRS

I GLYWED AM
DDULLIAU
ARLOESOL

say something in Welsh

a phrosiect newydd Tîm Cymru
2 o'r gloch Caffi Alys ,Machynlleth
7 o'r gloch Y Dyfi, Glantwymyn

9fed o Ebrill 2018

CROESO CYNNES I BAWB
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Menter Maldwyn

 **menteriaith
MALDWIN**

COME FOR A CHAT
AN INTRODUCTION TO

say something in Welsh

AN INNOVATIVE AND
SPEEDY COURSE TO
LEARN WELSH

Want to become a member of Tîm Cymru ?
come and hear more...

2 o'clock, Caffi Alys ,Machynlleth
7 o'clock, The Dovey Valley Hotel
Cemmaes Road/ Glantwymyn
9th of April 2018
WELCOME ALL

For more details contact Nia on 07770623962

 **menteriaith
MALDWIN**

Prosiect Adeilad Newydd / Capital Build Project

4



Diolch yn fawr iawn i'r ysgol am neiltuo colofn i mi yn *Ein Bro* er mwyn i mi allu rhoi gwybod i chi staff, llywodraethwyr, plant a rhieni am sut mae'r cynllun adeiladu eich ysgol newydd chi yn dod yn ei flaen.

I gyflwyno fy hun, fy enw i ydi Betsan Ifan ac rwyf yn cydweithio ar ran Cyngor Sir Powys gydag Ian Pilcher o **Heart of Wales Property Services** ar y rhaglen o adeiladu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen. Rydym ni'n dau yn byw yn lleol ac mae'n ffrainc cael y cyfle i weithio ar brosiect mor bwysig â hyn i'r staff, plant, rhieni a hefyd i dre Machynlleth.

Mae'r broses o benodi contractwr bron wedi ei gwblhau a bydd Cyngor Sir Powys yn ysgrifennu at yr holl gontractwyr wnaeth gyflwyno tendr. Unwaith mae'r broses o benderfynu ar gontractwr wedi ei gwblhau, bydd yr ysgol yn cael gwybod a hefyd bydd llythyr yn cael ei yrru at bob rhiant neu ofalwr gyda rhagor o wybodaeth am y contractwr llwyddiannus.

Y cam nesaf fydd gwerthuso a chwblhau'r dyluniad gorffenedig trwy weithio gyda'r staff, llywodraethwyr a phlant. Byddwch chi hefyd yn cael y cyfle i roi barn a sylw am y dyluniad mewn sesiynau 'taro i mewn' agored a gynhelir yn yr ysgol yn y dyfodol.

Mae'r prosiect £23 miliwn yma yn cael ei ariannu ar y cyd rhwng Cyngor Sir Powys a Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Ein gweledigaeth yw y bydd yr adeilad newydd yn agor ar gyfer Medi 2020.

Yn y cyfamser, caiff mwy o wybodaeth am y prosiect yma ei gyhoeddi ar wefan a safleoedd cymdeithasol Cyngor Sir Powys.

Hwyl am y tro,

Betsan

Big thank you to the school who have granted me a column within the school newsletter to provide regular updates for staff, governors, pupils and parents on the exciting project of constructing your new school.

To introduce myself, my name is Betsan Ifan and I am working on behalf of Powys County Council together with Ian Pilcher from Heart of Wales Property Services to deliver the new Ysgol Bro Hyddgen school construction programme. Both of us live locally and we are extremely excited to be given the opportunity to work on such an important project for the staff, pupils, parents and the town of Machynlleth.

The procurement process to appoint a contractor is nearing completion and Powys County Council will be writing to all contractors who submitted a tender imminently. Once the procurement process has concluded, the school will be informed and a letter will be sent to each parent/ guardian with further information on the successful contractor.

The next step will be to evaluate and finalise the designs by working very closely with the school staff, governors and pupils. You will be given the opportunity to view and comment on the designs during 'drop in events' at the school at a future date.

The £23 million project is jointly funded by Powys County Council and Welsh Government 21st Century Schools Programme and we envisage that the new school will open in September 2020.

In the meantime, regular updates will be published via the authority's website and social media pages.

Hwyl am y tro,

Betsan



Hysbysebion



Microsoft Office am ddim!
Free copy of Microsoft Office!

1. Croeso i Ysgol Bro Hyddgen

2. Login to your Office 365 email account

3. Install Office 2016

Mewngofnodi i e-bost Office 365 chi a dewis "Install Office"
Login to your Office 365 email account and select "Install Office"

The image shows a sequence of three screenshots illustrating the process of installing Microsoft Office 365. The first screenshot shows the school's website with a red circle '1' highlighting the 'Croeso i Ysgol Bro Hyddgen' link. The second screenshot shows a login page with a red circle '2' highlighting the login fields. The third screenshot shows the Office 365 dashboard with a red circle '3' highlighting the 'Install Office 2016' button. The background features the school crest and the Microsoft Office logo.



Dydd Llun Monday
Mawrth 26 March
10:30

Bore Crefft Pasg
Easter Craft Morning
Llyfrgell Machynlleth Library

Am fwy o wybodaeth/ for more details: nia@mentermaldwyn.org
01686610010
croeso i deuluoedd - families welcome

menteriaith
MALD WYN

CYMRAG

The poster is a yellow rectangular sign with a torn edge, placed in a wicker basket filled with straw and decorated with colorful Easter eggs. The text is written in a mix of Welsh and English. It includes the date and time of the event, the name of the library, contact information, and logos for 'menteriaith MALD WYN' and 'CYMRAG'.

6

DIWRNOD DRAMA

Cafwyd sesiynau Drama gyda Mr Nic Ros yn ystod yr wythnos trosglwyddo i flwyddyn 6, gan ganolbwyntio ar storïau gweledol.

Drama sessions on visual storytelling were held with year 6 in Transition week.



Cafwyd sesiynau Drama gyda Mr Nic Ros yn ystod yr Wythnos Trosglwyddo Blwyddyn 6, gan ganolbwyntio ar storïau gweledol. Herwyd y disgyblion gyda'r dasg o greu dilyniant o ddelweddau llonydd ar y thema o anhegwch. Cafwyd gwaith diddorol iawn yn cwmpasu bwlio, y Welsh Not a Rosa Parks, ac roedd dynwarediad Liam o Donald Trump yn werth ei weld!!

Drama sessions on visual storytelling were held with Year 6 in Transition Week. The challenge was to create a series of still images on the theme of unfairness. Very interesting work was created on the ideas of bullying, the Welsh Not, Rosa Parks, and Liam's impression of Donald Trump, was memorable!!

Gwefannau defnyddiol: Diogelwch ar y we / Useful Websites on internet safety .

- CEOP: <https://ceop.police.uk/safety-centre/>
- THINK U KNOW: <https://www.thinkuknow.co.uk>
- NSPCC – Diogelwch ar y we: <https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/keeping-children-safe/online-safety/>



DRAMA DAY



8

Taith yr adran Ddaeryddiaeth – Chwefror 2018

Es i ar y daith gwaith maes Ddaeryddiaeth i Wlad yr Iâ fis Chwefror a gwelais i lawer iawn o bethau bythgofiadwy! Ar y diwrnod cyntaf aethom i'r Blue Lagoon ac roedd y profiad hwn yn un o'r pethau na fyddaf byth yn ei anghofio gan fy mod wedi bod eisiau mynd yno i ymlacio yn y dŵr gwyrddlas cynnes ers peth amser. Gwelais dair rhaeadr enfawr i gymharu gyda'r rhai bach sydd gennym ni yma'n Cymru - roeddynt yn olygfeydd hynod drawiadol. Gydol y wythnos roedd gennym dywysydd ac roedd yn siarad am hanes a daearyddiaeth y wlad ac yn dangos pethau i ni oedd yn anarferol iawn e.e. roedd un ffermwr wedi adeiladu sied i'w anifeiliaid gael lloches mewn craig. Da iawn hefyd oedd ymweld ag ardal llosgfynydd Eyjafjallajokull, a gweld y llosgfynydd oedd yn rheswm am atal cymaint o hediadau awyren yn 2010. Yr uchafbwynt i mi'n bersonol oedd gweld y rhaeadr enfawr yn Gulfoss, ond dyma hefyd ddiwrnod oeraf fy mywyd. Cawsom brofi storm eira yn Reykjavik - profiad a hanner, a dyma oedd tywydd gwaethaf Gwlad yr Iâ mewn 15 mlynedd.

Diolch i Mrs Davies am drefnu taith mor wych. Os ydych chi'n ymweld â Gwlad yr Iâ rhywbryd gallaf dystio ei fod yn lle anhygoel.

Lowri Breese Griffiths Bl.10

On the 9th of February 2018, I attended a Geography fieldwork trip to Iceland. I enjoyed the plane journey there and back and I also enjoyed seeing all of the views within Thingvellir National Park. I learnt that there was a lot of burger restaurants and that their currency is Kroner – day to day life was in many ways similar to ours, but we also experienced the worst snowstorm Iceland has seen in 15 years – a very geographical experience!! The temperature in Iceland was -5C to -20C degrees and there was very thick snow. The best part was going to the Blue Lagoon because the water was really warm and there were amazing sights all around it. I would recommend seeing the geysers and the spectacular waterfalls because they're extraordinary sights to see. It was also amazing to see Eyjafjallajokull, a volcano we are currently studying in school. You may remember this as the volcano which produced the huge ash cloud back in 2010 and grounded many flights across Europe and beyond. Thank you very much to Mrs Eirian Davies for arranging such as brilliant visit.

Jessica Chick Year 9

Ar ran Mr Peter Kenny, Miss Anwen P Jones a minnau, hoffwn ddiolch yn ddifuant i'r disgyblion aeth ar ein taith i Wlad yr Iâ eleni. Cafwyd cyfleoedd i brofi ystod eang o brofiadau, o stormydd eira i weithdai gwyddonol tectonig, a sefyll i werthfawrogi golygfeydd godiog fel geysirau'n swigo a rhaeadrau'n byrlymu. Roeddwn yn hynod o falch o'r disgblion – roeddent wedi deall yn sydyn iawn nad oedd popeth am droi allan y ffordd roeddwn wedi cynllunio. Roedd agwedd bositif y plant yn amrhysadwy. Rhaid eu canmol am eu gallu i addasu i'r sefyllfa. Er hyn, yn ôl trigolion Gwlad yr Iâ, nid oes ffasiwn beth â thywydd gwael, dim ond y dillad anghywir!!!

Mae'n bur debyg mai hon fydd ein taith dramor olaf i ni fel tim o staff – ond yn sicr hon oedd yr un fwyaf cyffrous! Pakka þér fyrir !!!


On behalf of Mr Peter Kenny, and Miss Anwen P Jones, I would like to pay a huge thanks to all pupils who went on the Iceland trip this year. They enjoyed a vast array of experiences, from blizzards to interactive tectonic science exhibitions, and being in awe at the wonder of nature, witnessing geyser eruptions and cascading waterfalls. They were exemplary – and indeed worthy ambassadors of our School. Although our trip this time was hampered somewhat by bad weather (though there is never such a thing as bad weather – only incorrect clothes!), and we didn't manage to do everything on our itinerary, the pupils received the best level of care and attention throughout the visit, in what at times were extremely difficult circumstances.

It looks like this will be our last trip abroad as a team of staff – but I can certainly say it has been the most eventful! Pakka þér fyrir !!!


Eirian Davies Mawrth 2018



Geography fieldwork in Iceland - February 2018



Taith yr adran Ddaearyddiaeth – Chwefror 2018



Geography fieldwork in Iceland - February 2018



12 Datblygiad Plentyn



Ddydd Llun, 12 Mawrth, bu 6 disgybl o ddsbarth blwyddyn 11 Datblygiad Plentyn yn brysur iawn yn coginio. Fel rhan o waith cwrs Uned 3 roedd rhaid i'r merched gynhyrchu 4 pryd gwahanol. Roedd yn rhaid i'r pedwar pryd gynnwys bwydydd oedd yn uchel mewn Calsiwm a Phrotein. Roedd rhaid i'r disgyblion ddangos sgiliau a dealltwriaeth a phwysigrwydd diet iach ac amrywiol i blentyn ifanc. Cyflwynwyd amrywiaeth o fwydydd gan y merched, o gacen pysgod siap pysgod gan Lauren Jones-Larkin, byrger porc gyda saws tomato Gwenno Lewis, pupur wedi lenwi â briwgig twrci blas sinsir, garlleg, mêl a saws soya Sophie Dafydd i gacen caws tri lliw gan Rebecca Parks. Gweithiodd y merched yn galed iawn i sicrhau gradd deilwng yn y gwaith. Da iawn chi ferched.

"Gwnes i fwynhau yn fawr iawn, roedd yn brofiad arbennig cael coginio bwydydd yn addas i blentyn trwy'r dydd!! Dw i'n falch iawn fy mod wedi ymarfer adref gynta!" meddai Rebecca Parks Bl11.

On Monday, March 12th, 6 pupils from year 11 Child Development class were very busy cooking. As part of the Unit 3 coursework, the girls had to produce 4 different meals. The four meals had to include foods that were high in calcium and protein. Pupils had to show the skills and understanding and the importance of a healthy diet for a young child. A variety of dishes were introduced by the girls, from a fish-shaped fish cake by Lauren Jones - Larkin, a pork burger with a tomato sauce from Gwenno Lewis, a pepper filled with turkey mince, ginger, garlic, honey and soy sauce by Sophie Dafydd to a three-coloured cheese cake made by Rebecca Parks. The girls worked very hard to get a dignified grade for the work. Well done girls.

"It was a very successful day as I produced meals that were tasty and fulfilled the brief. I was able to produce a variety of interesting meals, cheesecake, beef burger and bun, quiche and fishcakes. The things I have learnt today will help me develop lifelong skills in cooking." Lauren Larking-Jones



Gŵyl Gyrfaoedd Powys / Powys Careers Festival

Festival

13



Ar y 7fed o Fawrth 2018 ar safle Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, mynychodd Blwyddyn 9, 10 a 12 Gŵyl Gyrfaoedd Powys. Amcan yr ŵyl oedd darparu cyfleoedd i wella gwybodaeth myfyrwyr Powys am yr opsiynau sydd ar gael ôl-16 fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu bywydau. Ar gael yno 'roedd gwybodaeth am brentisiaethau, prifysgolion, y lluoedd Arfog a phrofiad Gwaith.

On the 7th March 2018 on the Royal Welsh Show Ground, Llanelwedd Years 9, 10 and 12 attended the Powys Careers Festival. The festival's objective was to provide opportunities to improve Powys' students' knowledge of the post 16 options available so they can make informed decisions about their lives. Available were information about apprenticeships, universities, the armed forces and work experience.



14

Ffug Gyfweiliadau Blwyddyn 13—Year 13 Mock Interviews



Ddydd Gwener, 9 Mawrth, daeth dros ugain o swyddogion proffesiynol ledled Cymru draw i Fro Hyddgen i holi cwestiynau di-ri i fyfyrwyr Blwyddyn 13 fel rhan o'u ffug gyfweiliadau. Cyn camu ymlaen i'r 'byd go-iawn' ein gobaith fel ysgol yw bod y myfyrwyr yn gadael y chweched gyda chymwysterau llwyddiannus ond hefyd wrth gwrs wedi eu harfogi mewn sgiliau o bob math, gan gynnwys sgiliau cyfweled. Gall y rhan fwyaf ohonom uniaethu â'r teimlad rwy'n siŵr o orfod cerdded i'r stafell, y chwys yn diferu a'r galon yn curo'n gyflym cyn gorfod poeri atebion dr sylid o geg sych. Wel, yn ystod y diwrnod hwn braf oedd gweld y myfyrwyr oll yn minnogi eu sgiliau gan dyfu mewn hyder fesul eiliad. Diolch i bawb a fu ynghlwm â'r gwaith trefnu - mae'n debyg mai cyfweiliad yn y 'byd go-iawn' fydd y cyfweiliad nesaf, felly, ymlaciwch, rydych chi gyd yn hen law arni bellach!

On Friday, March 9th, over 20 professionals from various occupational backgrounds ventured to Bro Hyddgen from around the country to ask our year 13 some challenging questions as part of their mock interviews. Before stepping out to the 'real world' we like to think that our students leave the sixth form with successful qualifications and also valuable skills, including interview skills. Many of us can relate to that nerve-racking feeling of stepping into the interview room, sweat dripping and heart pumping as we spit confusing answers from very dry mouths! During this day, I was pleased to see our students growing in confidence as the day went on. We as a school are very grateful to all the volunteers for their time and expertise. It is more than likely that the next interview will be in the 'real world'; therefore, relax, you're experts by now!



Prosiect 'Chefistry' Blwyddyn 7 – Year 7 'Chefistry' Project 15

Mae Chefistry yn brosiect sydd yn ein galluogi ni, blant ysgol, i gael rhyddid i goginio a dylunio a chreu stand cacennau. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni lwyddo i goginio a chyflwyno bwyd heb help gan oedolion. Mae e hefyd yn ein gwneud i weithio yn annibynnol sydd yn ein helpu ni at y dyfodol.

Trwy wneud y prosiect yma, mae e'n ein gwneud ni weithio ar hast ac yn ein dysgu ni am lawer o reolau sydd yn berthnasol i'r gegin. Mae dysgu coginio pan rydym yr oedran yma yn ein galluogi ni i gynyddu ein gwybodaeth a hyder wrth ddefnyddio'r gegin ac yn ein gwneud yn fwy mywybodol o'n cyfrifoldebau pwysig wrth gadw'n ddiogel.

Yn y gwersi Technoleg Gwybodaeth, rydym wedi dysgu sut i ferwi wy drwy ddefnyddio'r wybodaeth a gwnaethom ymgasglu yn ein gwersi Gwyddoniaeth. Mi rydym nawr wedi dysgu am sut i wneud 'animation' a dangos y gronynnau yn symud i ddangos yr wy yn berwi. Wrth edrych ar yr 'animation', mae e yn dysgu llawer o blant am sut mae ychwanegu halen i wy yn effeithio ar y dŵr; mae swigod bach yn cael eu ffurfio.

Mae'r project Chefistry yn digwydd bob yn ail wythnos ac yn para tan ddiwedd yr ail fis. Mae pawb hyd yma yn edrych fel eu bod yn mwynhau ac yn dysgu llawer. Bob yn ail wythnos, rydym yn cymryd cam ym mhellach tuag at gyflwyno ein gwaith caled at rieni ac athrawon. Mi rydym ni blant yn edrych ymlaen at ddangos i chi'r gynulloedifa terfynol ac yn gobeithio yn wir eich bod hefyd yn cytuno bod y project yn werth pob awr sy'n cael ei dreulio arno.

Gan Beca, Efa a Gwenllian (disgyblion blwyddyn 7)

The cheffistry project allows us school children to have the freedom to cook, design and create cupcake stands ourselves. It gives us a chance to be able to cook and serve food without the help of adults. It also makes us independent which will help towards our future.

By doing this project, it makes us work at speed and teaches us about several rules that we need to know about cooking. Teaching us to cook, when we are this age is helping us to develop the information we have already I have and it gives us more confidence in developing the kitchen. Also, learning about the kitchen teaches us our responsibilities that we need to stick to.


In IT we are learning how an egg gets boiled, by using all the information we collected in Science we can make an animation and show how all the molecules move into tiny places which form a bubbly top. By looking at the animation it allows children to look at it and receive a lot of information. It shows that when you add salt the bubbles start to form.

The cheffistry project happens every two weeks for two months and everyone seems to be enjoying it. Every two weeks we go a step further and then we can present our hard work to some of the teachers and our parents. We are looking forward to showing you our final product and we are really hoping that you will agree that the project is worth every hour spent upon it.



16


Gwefannau ac Apps defnyddiol ar gyfer datblygu rhifedd



Er mwyn cynnig rhagor o gymorth i ddatlygu sgiliau rhifedd ein disgyblion, rydym yn eu hannog i wneud defnydd o rifedd y tu allan i'r ysgol. Dyma gwefannau ac Apps rhifedd defnyddiol y gall disgyblion eu defnyddio i ddatblygu eu sgiliau rhif ynghyd â'r hyn sydd yn digwydd yn yr ysgol.

Bedtime Math


Mae'r cwestiynau ar *bedtime math* yn cael eu gofyn ar ffurf ysgrifenedig a rhaid i'r plentyn ddehongli'r cwestiwn a darganfod y swm sydd angen i'w ateb. Mae'r cwestiynau hefyd wedi eu gwahaniaethu ar gyfer disgyblion gallu isel, canolig a disgyblion gallu uchel. Mae'r cwestiynau yn newid yn ddyddiol.



Brainist Math Games

Mae'r wefan *Brainist Math Games* yn wefan wych ar gyfer datblygu mathemateg pen disgyblion. Mae'n cynnwys cwestiynau lluos, rhannu adio a thynnu. Nod y gêm yw ateb cyfres o gwestiynau mewn cyn lleied o amser ag sy'n bosib.

Gwefan sydd yn cynnwys llawer o adnoddau adolygu TGAU Mathemateg gan gynnwys *Who wants to be a Millionaire*, gêm a fydd yn enyn diddordeb plant ac yn datblygu eu sgiliau rhif.



Motion Math

App defnyddiol ar gyfer datblygu rhif sydd yn cynnwys nifer o gemau gwahanol sydd yn hwyl i blant. Mae'r App gyda ffocws ar ddatblygu ffracsiynau ac mae'n dweud bod defnyddio'r App yma yn gwella ffracsiynau plentyn 15% ac agwedd plant tuag at fathemateg o 10%. Mae'r App yma yn ddefnyddiol i blant 2016 gan fwyafrif ohonynt fynediad i wahanol ffurf o'u defnyddio e.e. ffôn symudol, i-pods ar i-pads a.y.b.

Backed by research
 Kids playing our game improved:

- 15% in fraction estimation
- 10% in math attitudes

[Learn more](#)




Useful websites and Apps for developing numeracy skills

To further develop the numeracy skills of our pupils, we encourage them to make use of numeracy outside school hours. These are some useful Numeracy websites and Apps that pupils can use to develop their numeracy skills along with what is going on at school.


Bedtime Math

The questions on bedtime math are asked in a written format which requires the pupil to interpret the question and work out the sum needed to answer the question. The questions are differentiated for pupils of lower, medium and high ability learners. The question also changes daily.



Brainist Math Games


The 'Brainist Math Games' is an excellent website for developing mental maths. It includes multiplications, division, addition and subtracting questions. The objective of the game is to answer a series of questions as quickly as possible.



A website that includes a number of revision resources for GCSE Mathematics including 'Who Wants to be a Millionaire'; a game that will interest children and develop their numeracy skills.

Motion Math

A useful App for developing numeracy skills as it includes a number of games that are fun for children. The App is focused on developing fractions; they claim that the use of this App improves their fractions by 15% and children's attitude towards mathematics by 10%. Apps are useful for children of 2016 as many of them have access to different ways of using Apps on mobile phones, i-pods and i-pads etc.




Backed by research
 Kids playing our game improved:
 • 15% in fraction estimation
 • 10% in math attitudes

[Learn more](#)



18 Sut i adolygu'n effeithiol?



Mapiau meddwl

Er mwyn dysgu am sut mae **Mapiau Meddwl** yn gweithio a sut i'w creu, dyma fideo all fod o ddefnydd:

<http://youtu.be/4wZ5wV5dPZc>

Dyma enghraifft sy'n dangos sut i greu map meddwl – gofynnwch i'ch plentyn ei esbonio i chi.



Sut i greu a defnyddio map meddwl?

Dyma becyn defnyddiol iawn o strategaethau adolygu a ddefnyddir gan ysgolion yn yr Alban – mae'n werth cymryd cipolwg ohono.


<https://blogs.glowscotland.org.uk/er/SNHPastoralSupportWebsite/files/2012/01/Study-Skills-02.pdf>

Pegio

Dull o gofio pethau'n hwylus a gyflwynwyd yn ystod y gweithdy oedd '**pegio**'. Yma, mae disgyblion yn cysylltu rhywbeth gyda rhywbeth arall sy'n gyfarwydd. Enghraifft o hyn yw y gellid dysgu rhestr o wledydd y byd trwy eu cysylltu gyda chelfi yn yr ystafell wely, neu gyda rhannau o'r corff.

Trefnu'r gwaith a'r adolygu

Eistedd fyny'n syth – mae hyn yn caniatáu i waed ac ocsigen lifo i'r ymennydd, ac mae hyn yn hwyluso'r broses o ddysgu a chofio.



Mae pobl yn cofio 90% o beth maent yn ei ddysgu i rywun arall, ac felly mae'n

werth i'r plentyn ddysgu i riant beth maent wedi ei ddysgu yn ystod y cyfnod adolygu diwethaf.

Peidio adolygu gyda ffôn symudol a Facebook ar waith

– mae defnyddio ffon symudol a Facebook fel arfer yn gwastraffu 40 munud. Dylid cadw defnyddio rhain at amser egwyl – hynny yw, adolygu am 45 munud ac yna 15 munud i siarad gyda ffrindiau ar y ffôn neu'r we.

Mae dysgwyr fel arfer yn gweithio'n fwy effeithiol os ydynt yn adolygu yn y gegin neu'r ystafell fwyta.

Mae angen llonydd oddi wrth frodyr a chwiorydd, ond dylai rhiant fod yn gyfleus i gynnal y disgybl e.e. gofyn cwestiynau am y gwaith, profi i sicrhau ei fod yn dysgu'r gwaith a sicrhau nad yw'r we, yr X-box neu'r PSP a'r ffôn symudol yn cael eu defnyddio pan na ddylai hynny ddigwydd. Mae llawer o ddisgyblion **eisiau i'w rhieni eu helpu i greu a rheoli amserlen adolygu.**

Beth am

ddefnyddio llyfrgell y dref ar gyfer adolygu ac mae'r ysgol ar agor am gyfnodau helaeth o'r gwyliau a than tua 6.00 o'r gloch bob nos?




Mae llawer o ddisgyblion yn dymuno bod eu **rhieni yn eistedd gyda hwy wrth iddynt adolygu**, a'u bod yn eu profi ar yr hyn a ddysgwyd, yn syth ar ddiwedd y sesiwn adolygu, ac o fewn 2-3 diwrnod i weld os oeddynt yn dal i gofio'r wybodaeth.

Safle gwe Quizlet (<http://quizlet.com/>) sef safle gwe lle mae'n bosib creu a chwarae cwisiau adolygu.



How to revise effectively?



Mind maps:

To learn more about how 'mind maps' work, and how they may be created, this video is very informative:

<http://outu.be/4wZ5wV5dPZc>

How to create and use mind-maps

This is a very useful information pack about revision strategies which is used by schools in Scotland – it is worth taking a look at it.

<https://blogs.glowscotland.org.uk/er/SNHPastoralSupportWebsite/files/2012/01/Study-Skills-02.pdf>



Pegging is a method of memorising things very easily. This method requires learners to connect something they wish to learn with a familiar object. An example of this is that countries of the world may be learnt by connecting them with furniture in the bedroom, or with different parts of the body.

Organising the work and revision


Sitting up straight – this enables blood and oxygen to flow to the brain, and this makes the learning and memorising process to be much easier for us.

People remember 90% of what we teach to other people, and it is therefore worthwhile to teach a parent what you have learnt during the previous revising session.

Don't revise when your mobile-phone and Facebook are switched on – trying to revise and use these means that you

are wasting 40 minutes. It is much better use of time to revise for 45 minutes, and then to switch the mobile phone and Facebook on during the following break – this should be 15 minutes in length.

Learners usually work more effectively if they are revising in the kitchen or dining room. Younger brothers and sisters should leave the learner alone when he/she is revising, but a parent should be nearby to give support e.g. ask questions about the work, and to make sure the internet, X-box, PSP and mobile-phone are being used when this shouldn't happen.



Several pupils note that they don't work hard enough at home, and they said the internet, computer games and mobile phones distract their attention away from the work. It is beneficial for pupils to work under supervision, and not in the bedroom or wherever else they work without a parental eye being kept on what is happening.

Some pupils note that they spend too much time with friends and that they wish their parents would keep them at home for specific revision periods. It is important to have time to relax, but balance is needed, and the time before an examination is an important time for revision.

Many pupils say they want their parents to help them create and manage a revision timetable.

Pupils who live in town could use the town library for revision, and that the school is open until about 6.00 o'clock in the evening and for the majority of the holidays.



Most of the boys and some girls said they would like it if their parents would sit with them when they're revising, and the parents then test what has been learnt at the end of the session and within 2-3 days see what information has been retained. Several also said they wanted their parents to discuss with them the process of completing past-papers; this would reinforce what the pupils have learnt in school.

Quizlet website (<http://quizlet.com/>) is a website where learners can create and play revision quizzes. Pupils who have already attempted to use this website have enjoyed the work and they said it was a significant help with their revision.



20 Sut yr ydym yn cyfathrebu

Sut mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda'r plant, rheini a'r gymuned?

How does the school communicate with pupils, parents and the community?



Mewn cymuned wledig fel Machynlleth mae'n hanfodol bwysig fod ein pobl ifanc a'u rheini yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd yn gael yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi defnyddio technoleg yn effeithiol er mwyn llwyddo. Er mwyn sicrhau hyn mae gan yr ysgol system gyfathrebu effeithiol gyda nifer o dechnegau sydd yn gwneud hyn yn bosib a hynny wyth gyfathrebu yn fewnol ar gyfer ein disgyblion a staff ond hefyd yn allanol gydag ymwelwyr, rheini a'r gymuned.

Gwefan yr Ysgol

Mae'r wefan yn hanfodol i rannu gwybodaeth bwysig, ffurflenni, llythyrau a hefyd hyrwyddo'r ysgol i'r gymuned a thu hwnt. Mae'r wefan yn ddwyieithog ac yn hysbysebu'r prosiectws a newyddion blog drwy twitter a hefyd llwyddiannau'r ysgol yn yr ardal newyddion.

Gwefan : <https://www.brohyddgen.powys.sch.uk>

Cyfringau Cymdeithasol (Twitter a Facebook)

Mae defnydd o gyfringau cymdeithasol yn hanfodol i sicrhau cyswllt cryf rhwng y cartref a'r ysgol. Mae yna gymaint o ddigwyddiadau a llwyddiannau yn digwydd yn yr ysgol ac mae rhieni yn ddiolchgar ein bod ni'n cyhoeddi'r rhain a'u cadw nhw mewn cyswllt gyda'r ysgol yn eu ffrwd cyfringau cymdeithasol Facebook a Twitter. Un o fanteision cyfringau cymdeithasol ydy fod rhieni yn gallu cadw mewn cyswllt â'r ysgol trwy wahanol ddulliau a thechnoleg, boed hynny yn gyfrifiadur, yn dabled neu yn ffôn symudol.

Facebook : <https://www.facebook.com/BroHyddgen>

Twitter: <https://twitter.com/brohyddgen>

Neges Testun

Ers 2012 mae'r ysgol wedi mabwysiadu system teachers 2

For a small school in a rural area as Machynlleth it is essential that pupils and parents are aware of all the opportunities that are available at the school. The school has been successful in using technology to achieve this aim. The school has used a range of effective communication systems to carry out its aim of effective communication internally between staff and pupils but also externally with stakeholders including visitors, parents and the wider community.

The School Website

The school website is an essential tool for sharing key information including forms, letters, important documents and messages. The school targets its bilingual website at new pupils and their parents through its online prospectus and news blog which is fed through the school's twitter feed. In the news section, important news and developments which are taking place at the school are posted as they happen during the school year.

Website: <https://www.brohyddgen.powys.sch.uk>

Social Media (Twitter and Facebook)

The use of social media is a key aspect of the school's success in ensuring effective school and home communication. There are many school events and achievements which deserve to be recorded and the most effective and popular way to share these with parents is through using Twitter and Facebook. The advantage of social media is the ability for parents to view school postings using many different devices including the Twitter and Facebook website, using portable devices such as tablets and smart phones.

Facebook : <https://www.facebook.com/BroHyddgen>

Twitter: <https://twitter.com/brohyddgen>

Text Messaging

Since 2012 the school has adopted this system for communicating with parents and from its early adoption date to the present day, it has gone from strength to strength. Using the teachers2parents software the school



How we communicate

21

parents sydd yn caniatáu i'r ysgol i yrru neges destun at y rhieni. Nid negeseuon i hysbysu'r rhieni nad yw eu plentyn wedi gwneud ei waith cartref mo rhain yn unig ond defnyddir y cyfrwng hwn fel arf i atgoffa'r rhieni am ddigwyddiadau'r ysgol yn ogystal â rhoi gwybod i'r rhieni am unrhyw waith da y mae eu plentyn yn ei wneud yn yr ysgol. Trwy ganmol y plant a throsglwyddo'r neges yma i'r cartref mae'r rhieni hefyd yn gallu canmol eu plant ac rydym yn llwyddo i hyrwyddo cyfathrebu a chysylltiad cyson a chlir rhwng yr ysgol a'r cartref.

Llwyfan e-ddysgu'r Ysgol (VLE)

Mae'r ysgol eisoes wedi defnyddio nifer o systemau effeithiol ar gyfer cau'r bwlch rhwng adnoddau dysgu yn y cartref a'r ysgol. Rydym yn defnyddio Remote Desktop, Moodle a hefyd Office 365 sydd yn caniatáu i bob disgybl yn yr ysgol gael mynediad i system yr ysgol o'r cartref. Rydym hefyd yn sicrhau fod gan pob plentyn fynediad i becynnau meddalwedd yr ysgol am ddim yn y cartref i sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn yn yr ysgol.

Ein Bro Papur Newydd yr Ysgol

Yn ei hanfod, pwrpas papur newydd yr ysgol, Ein Bro, yw datllyu llwyddiannau ein disgyblion; rhoi cydnabyddiaeth a bri i'r disgyblion hynny sy'n cymryd y cam ychwanegol hwnnw ac yn serennu gan obeithio annog eraill i ddilyn yr un llwybr. Mae'n llinyn cyswllt effeithiol tu hwnt rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned ac yn arddangos doniau ein pobl ifanc.

Gellir lawr lwytho'r papur newydd yma: <https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/cy/gwybodaeth/papur-newydd-ysgol-ein-bro>

Anwiredd fyddai dweud mai gwaith un person yw'r wefan a holl ddulliau cyfathrebu arloesol yr ysgol, gan gynnwys Ein Bro. Mae'n waith tîm; yn ffrwyth llafur y disgyblion a'r staff.

Mae'n diolch ni'n fawr i bawb sydd wedi cyfrannu ac sy'n parhau i gyfrannu gan obeithio y bydd dulliau cyfathrebu'r ysgol yn parhau i ddatblygu am flynyddoedd i ddod.

has been able to, not only message reminders to pupils' parents about homework or events, but also to promote pupil achievement. The school firmly believes that praising pupil achievement can lead to improved behaviour. Text messaging allows the school to praise where praise is due and for the praise to reach the home in an instant. The text messaging medium secures effective communication between the school and home.

E-learning and the use of VLE

The school has always used effective e-learning systems to close the gap between home and school. The school uses a range of e-learning systems including remote desktop which allows all its pupils to remote into the school from home and access a school based learning experience, regardless of their location. The school also uses Moodle and Office 365 which enables its pupils to access their learning from anywhere, at anytime of the day. The school also provides the same software, which can be used in the home as if they were in school. This is provided via the remote desktop application or the Office 365 portal. This ensures that all the school's pupils have the tools they need to succeed.

Ein Bro, the school newspaper

The main purpose of the school newspaper Ein Bro is to celebrate the success of its pupils and to recognise their achievements, with the aim of inspiring others to follow. It is also a vital communication link between the school, home and the community which aims to inform and showcase the talents of the young students.

Download the newspaper: <https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/cy/gwybodaeth/papur-newydd-ysgol-ein-bro>

It would not be fair to credit all the communication tools that the school uses, including the school newspaper Ein Bro, to 1 person. Ensuring and applying good 21st century communication techniques is a team effort and a testament to the hard work of the school's pupils and staff. The school would like to thank everyone who has contributed so far and looks forward to further co-operation and input in the future!

Sialens Siocled / *Chocolate Challenge*

22



Ddydd Mercher, 17 Ionawr, bu disgyblion dosbarth Helygen a dosbarth Collen yn cymryd rhan mewn Gweithdy Gwyddoniaeth 'Sialens Siocled'. Yn ystod y gweithdy, a oedd yn cael ei arwain gan fyfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth, bu'r disgyblion yn datrys y broblem o ba fath o siocled fyddai orau ar gyfer bariâu siocled Mr Wili Wonka. Roedd cyfle iddynt gydwethio i gynnal ymchwiliad i ba fath o siocled (ai gwyn, llaeth neu dywyll) oedd yn ymdoddi gyflymaf. Cafwyd cyfle i rannu a chymharu canlyniadau cyn dod i gasgliad. Diolch i fyfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth am gynnal y gweithdy gwerth chweil hwn i'r disgyblion.

On Wednesday 17 January pupils from classes Helygen and Collen took part in a Science workshop: 'The Chocolate Challenge'. During the challenge, led by students from Aberystwyth University, the pupils had to decide which chocolate would be best for Wili Wonka's chocolate bars. They had the opportunity to work together to find out which chocolate – either white, milk or dark would melt the fastest. They shared and compared results before reaching a conclusion. Thank you to Aberystwyth University students for holding this worthwhile workshop for the pupils.

Gweithdy Hwiangerddi gyda Siân James

Ddydd Iau, 15 Mawrth, croesawyd Siân James i'r Campws Cynradd ble bu hi'n cynnal gweithdai hwiangerddi gyda'r dosbarthiaau yn y Cyfnod Sylfaen a hefyd gyda dosbarth Derwen. Cyfareddwyd pawb gan ei llais a'i mwynder ac aethpwyd i gryn dipyn o hwyl wrth gyfri'r geifr. Roedd yn brofiad cerddorol gwerthfawr iawn a ddarparwyd drwy gyfrwng cyllid y Siarter Iaith. 'Roedd y plant yn fendigedig a'r ymateb yn falm i'r galon!' oedd ymateb Siân i'r ymweliad.

On Thursday 15 March, Siân James held nursery rhyme workshops with the Foundation Phase children and also with Derwen class. The children were enchanted by the harp and Siân's beautiful voice. The children thoroughly enjoyed singing some of the traditional Welsh songs including 'Oes Gafr Eto' – 'Any More Goats?'. It was a valuable musical experience



Sioe Mewn Cymeriad / *In Character Show*

23



B'nawn Mawrth, 27 Chwefror, cafodd pawb yn Bl 4 & 5 gyfle i fwynhau cyflwyniad dramatig yn olrhain hanes yr iaith Gymraeg. Sioe un dyn, ryngweithiol, oedd hon a gyflwynwyd mewn dull deinamig a hynod effeithiol gan yr actor adnabyddus Llion Williams. Llwyddodd i dwys y plant yn ôl i gyfnod Harri VIII, cyfnod William Morgan, Brad y Llyfrau Gleision a'r Welsh Not gan orffen ar nodyn cadarnhaol bod pob plentyn sy'n byw yng Nghymru heddiw yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg. Bu'n brofiad dramatig ac addysgiadol gwirioneddol gwerth ei gael. Daeth hanes yn fyw o flaen ein llygiad!

On Tuesday 27 February everyone in Year 4 & 5 had the opportunity to enjoy a dramatic presentation of the history of the Welsh language. This was a one man, interactive show which was dynamically presented by the well known Welsh actor, Llion Williams. The children were taken back to the time of Henry VIII, the Bishop William Morgan, The Treason of the Blue Books and the Welsh Not before finishing the journey in the present day on a positive note that every child living in Wales today has the opportunity to learn Welsh. It was a worthwhile educational and dramatical experience. History came alive in front of our eyes!



24 Diwrnod y Llyfr / *World Book Day*

Ddydd Iau, 8 Mawrth, gwahoddwyd pawb i ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad allan o lyfr. Yn ystod y bore bu'r prif ddisgyblion, Mared Jones ac Erwan Jones, yn brysur yn beirniadu'r gwisgoedd. Llongyfarchiadau i Chloe (dosbarth Derwen), Kitty (dosbarth Masarnen), Coco (dosbarth Celynen) ac Elin (dosbarth Onnen) am greadigrwydd eu gwisgoedd nhw. Diolch arbennig i Siop Penrallt am eu haelioni a'u cefnogaeth drwy ddarparu gwobrau ar ffurf tocynnau llyfr a chyfle i blant brynu llyfrau am bris gostyngol.

Yn affodus bu'n rhaid canslo'r trefniadau wnaethpwyd i'r awdur Malachy Doyle ddod i'r ysgol i gynnal gweithdai gyda phlant yr Adran Iau ond llwyddwyd i adrefnu dyddiad i Eurig Salisbury ddod i mewn i gynnal gweithdai gyda phlant y Cyfnod Sylfaen ddydd Iau, 22 Mawrth. Edrychwn ymlaen at ei groesawu i'r ysgol ac at ei glywed yn darllen hanes y Deg Deinasor Bach.

On Thursday 8 March everyone was invited to come to school dressed as their favourite character out of a book. During the morning, the head pupils, Mared Jones and Erwan Jones went around all the classes to judge the costumes. Congratulations to Chloe (Derwen class), Kitty (Masarnen class), Coco (Celynen class) and Elin (Onnen class) for particularly creative costumes. The school would like to acknowledge the support and generosity of Siop Penrallt who supplied prizes in the form of book tokens and an opportunity to buy books at a discount. Unfortunately, due to adverse weather conditions, we had to cancel arrangements made for the author Malachy Doyle to come to the school to hold workshops with Year 3 – 6 children but rearrangements have been made for the poet Eurig Salisbury to come in to school to hold workshops with the Foundation Phase children on Thursday 22 March. We look forward to welcoming him to the school and to hear him reading from the adaptation of the book Ten Little Dinosaurs.



Diwrnod y Llyfr / *World Book Day*

25



Ydy'ch plentyn chi'n feddylwr? Ydy'ch plentyn chi'n gwestiynwr?

Ffaith: Rydych yn meddwl mwy wrth ofyn cwestiwn nac wrth ei ateb.

Ffaith: Mae athrawon yn gofyn 80 cwestiwn yr awr ar gyfartaledd. Mae dysgwyr o oed uwchradd yn gofyn 2 gwestiwn bob awr. Pwy sy'n gweithio galetaf?

Ffaith: I gael amser i ateb cwestiwn yn dda, mae angen amser meddwl cyn dweud yr ateb.

Ffaith: Dylai amser meddwl fod yn 3 eiliad o leiaf.



Research shows mothers are the most quizzed people in the UK, and on subjects far and wide.

They are asked more questions every hour than a primary school teacher - 19 - as well as doctors and nurses, 18.

And the study discovered girls aged four are the most curious, asking an incredible 390 questions per day - averaging a question every 1 minute 56 seconds of their waking day.

The Daily Telegraph

Mae datblygu dysgwyr chwilfrydig ac annibynnol yn rhywbeth mae pob ysgol yn anelu i'w wneud. Dyma'r dinasyddion fydd yn y dyfodol yn yherus i gwestiynu a rhesymu'n effeithiol, ac felly hefyd yn datblygu sgiliau arweinyddol a datrys problemau gwych. Mae astudiaethau niferus yn dangos bod plant, lle bynnag maent yn byw, wrth fynd yn hŷn yn llai parod i gwestiynu ac yn mynd yn llai a llai chwilfrydig. Wedi dweud hynny, mae parhau i annog plant i ofyn cwestiynau yn rhywbeth i'w hybu, ac mae cyfraniad allweddol gan rieni i'w wneud ynghyd â'r ysgol.

Yn llyfr cyswllt pob plentyn ym mlynnyddoedd 7-11 mae copi o'r poster "Sgiliau Gofyn Cwestiwn". Mae'r poster hwn yn ganllaw defnyddiol i annog a chefnogi'r dysgwyr i ddatblygu'u sgiliau cwestiynu. Mae'r diagram yn seiliedig ar Tacsonomi Bloom (<http://www.nmmu.ac.za/cyberhunts/bloom.htm>). Mae'r cwestiynau lefel is yn gofyn am atebion yn seiliedig ar ddwyn i gof - e.e. "Sawl...?", "Faint...?", "Beth yw...?" tra mae'r cwestiynau lefel uwch yn gofyn am atebion yn seiliedig ar gymhwyso, creadigrwydd, dadansoddi a gwerthuso - e.e. "Beth os...?", "Sut gallai...?", "Pam fyddai...?". Mae'r cwestiynau lefel uwch (agored) yn gofyn am waith meddwl a phwyso a mesur, tra mae'r cwestiynau lefel is (caeedig) yn gofyn am gyflwyno gwybodaeth. Mae gwerth i'r ddau fath o gwestiwn a dylid anelu i'w defnyddio mor aml a'i gilydd, ac hefyd annog y plant i ofyn y ddau fath o gwestiwn.

Cwestiynau sydd yn gallu ennyn trafodaeth ac yn gallu datblygu'r meddwl yw cwestiynau tebyg i rai lan Gilbert a welir yn ei lyfr *The Little Book of Thunks*. Mae'n werth ymweld a'r safle gwe [Thunks](http://www.thunks.co.uk/) <http://www.thunks.co.uk/> lle mae sawl enghraifft o gwestiynau o'r fath. Gweler enghreifftiau uchod.



Mae athrawon yr ysgol eleni wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ofyn cwestiynau er mwyn datblygu dysgu'r disgyblion, ac hefyd ar sut i hyfforddi disgyblion eu hunain i ddatblygu'u sgiliau cwestiynu. Ydy'ch plentyn chi'n gallu egluro beth yw cwestiwn da?

Er mwyn datblygu mwy o ddealltwriaeth am sut mae'ch plentyn yn dysgu yn yr ysgol, isod mae yma cwestiynau y gellwch ofyn wedi iddo/iddi ddychwelyd gartref. Gall hyn osgoi y sgwrs fer mae mwyafrif helaeth o rieni'r wlad yn ei gael gyda'u plant:


Rhiant: "Beth wnest ti yn yr ysgol heddiw?"

Plentyn: "Dim llawer"

Cwestiynau gall rhieni'u gofyn er mwyn datblygu dealltwriaeth am sut mae eu plant yn dysgu:

- Pa dri pheth wyt ti wedi'u dysgu heddiw? Sut wnest ti eu dysgu?
- Beth oedd y peth gorau ddysgais di heddiw? Beth oedd yn dda amdano?
- Beth yw y gwaith rwyf ti wedi'i wneud orau heddiw? Beth oedd yn dda amdano?
- Beth oedd y gwaith mwyaf heriol wnes di heddiw? Sut wnes di oresgyn unrhyw anawsterau?
- Beth fues ti'n ei ddarllen heddiw? Beth ddysgais di wrth ddarllen hwn?

Fel rhiant, pan fydd eich plentyn yn gofyn cwestiynau, mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu. Yn aml, gellid datblygu annibyniaeth y plentyn trwy ei annog i geisio darganfod atebion. Hon yw oes "Google", ac yn amlwg, mae llawer o atebion i'w canfod ar y we. Ond, mae ffynonellau eraill defnyddiol a gwerthfawr o wybodaeth hefyd - gwyddoniaduron, llyfrgell, ymweld â llefydd penodol, gofyn i bobl eraill, i enwi ond rhai.



Millions saw the apple fall, but Newton was the one who asked why.

Bernard Baruch



Is your child a thinker? Does your child ask questions?

Fact: You think more when asking a question than by answering it.

Fact: Teachers ask 80 questions an hour on average. Learners of secondary school age ask 2 questions an hour.

Who works hardest?

Fact: To answer a question well, thinking time is needed before answering.

Fact: Thinking time should be at least 3 minutes.



Research shows mothers are the most quizzed people in the UK, and on subjects far and wide.

They are asked more questions every hour than a primary school teacher - 19 - as well as doctors and nurses, 18.

And the study discovered girls aged four are the most curious, asking an incredible 390 questions per day - averaging a question every 1 minute 56 seconds of their waking day.


The Daily Telegraph

Every school aims to develop inquisitive and independent learners. These will be, in the future, the citizens who will be confident to question and reason effectively, and will therefore have developed excellent leadership and problem-solving skills. Many studies show that children, wherever they live, are less likely to ask questions and become less inquisitive as they grow older. After saying that, encouraging children to ask questions is very important, and parents as well as the school can make a significant contribution with regards to this.

In the contact book of each pupil in years 7-11 there's a copy of the poster "Questioning Skills". This is a very useful poster to encourage and support learners to develop their questioning skills, and is based on Bloom's Taxonomy (<http://www.nmmu.ac.za/cyberhunts/bloom.htm>). The lower order questions ask for answers which are based on recall - e.g. "How many...?", "What is...?" whereas higher order thinking questions require answers based on application, creativity, analysis and evaluation e.g. "What if...?", "How could...?", "Why would...?". The higher order questions (open) ask for thinking and consideration, whereas the lower order questions (closed) ask for information to be presented. There is value in both types of questions, and we should aim to use both together as often as possible, and also encourage children to ask both types of questions.


As a parent, when your child asks questions, this is something to encourage. Often, the child's independence may be developed by encouraging him/her to seek the answers. This is the age of "Google", and obviously, many answers are to be found on the internet. However, there are also other valuable sources of knowledge - encyclopaedias, library, visit relevant places, asking people to name but a few.

Questions which may encourage discussion and develop thinking skills are questions similar to those asked by Ian Gilbert in his



book **The Little Book of Thunks**. It's worth visiting the **Thunks** website <http://www.thunks.co.uk/> where there are several examples of these types of questions. Some examples may be seen above.

This year, the teachers at the school have received training on how to ask questions to develop the pupils' learning, and also on how to train pupils themselves to develop their questioning skills. Can your child explain what is a good question?



To develop further understanding about how your child learns at school, below are questions you may wish to ask at the end of the school day. This may be a way of avoiding the short conversation many parents nationally have daily with their children:

Parent: "What did you do in school today?"

Child: "Not a lot"

Questions parents can ask to develop understanding of how your child learns:

1. What three things did you learn today? How did you learn these?
2. What was the best thing you learnt today? What was good about this?
3. What work did you do best today? What was good about this work?
4. What was the most challenging work for you today? How did you overcome any difficulties?
5. What did you read today? What did you learn by reading this?



Millions saw the apple fall, but Newton was the one who asked why.

Bernard Baruch



Ysgol Bro Hyddgen yn ennill gwobr UNESCO



O'r chwith i'r dde: Mr Dafydd Jones (Pennaeth), Erwan Jones, Amelie Taylor, Mared Jones, Tomos Davies, Mr Allan Wynne Jones (ar ran UNESCO), Mr Andy Rowland (Ecodyfi) a Ms Ann McGarry (Ecodyfi)

From left to right: Mr Dafydd Jones (Headteacher), Erwan Jones, Amelie Taylor, Mared Jones, Tomos Davies, Mr Allan Wynne Jones (on behalf of UNESCO), Mr Andy Rowland (Ecodyfi) and Ms Ann McGarry (Ecodyfi)



Mae Ysgol Bro Hyddgen yn ymfalchïo iddi fod wedi ennill gwobr UNESCO'n ddiweddar, a hynny am yr holl waith sydd yn digwydd ar draws pob Cyfnod Allweddol yn hyrwyddo egwyddorion heddwch, datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mewn 180 o wledydd ar draws y byd, mae 10 000 o ysgolion wedi eu hachredu i fod yn ysgol UNESCO, a mae ennill y wobwr hon yn adlewyrchu'r ymroddiad a'r gwaith caled sy'n digwydd ar draws yr ysgol gydol y flwyddyn i ddatblygu dealltwriaeth ac ymroddiad y dysgwyr i'r egwyddorion hyn.

Mae myfyrwyr o'r ysgol wedi bod yn cydweithio gyda myfyrwyr o Wlad Groeg i wneud gwaith sy'n datblygu dealltwriaeth o ecosystemau gan gynnwys o ecosystem Biosffer Dyfi, ac mae cerddorion ac artistiaid o Wlad y Basg wedi cydweithio gyda'r ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, ymysg llu o gyweithiau eraill, mae'r ysgol hefyd wedi cydweithio gyda Mach Maethlon er mwyn tyfu planhigion yn lleol ar gyfer eu bwyta.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd gwasanaeth yn yr ysgol pryd cyflwynwyd y dystysgrif i'r prif ddisgyblion gan Mr Allan Wynne Jones. Bu Mr Allan Wynne Jones a Mr Andy Rowland o EcoDyfi'n weithgar iawn yn cefnogi'r broses o wneud cais am yr achrediad hwn a braf iawn oedd eu gweld yn rhan o'r gwasanaeth hwn. Roedd y gwasanaeth hwn hefyd yn gyfle i'r ysgol allu diolch i Mr Allan Wynne Jones sydd yn symud o'r ardal am ei holl gefnogaeth, ei weledigaeth a'i waith diflino dros y blynyddoedd; bu'n lywodraethwr a Chadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Machynlleth am flynyddoedd, ac yna'n gadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Bro Hyddgen. Dymuna'r ysgol yn dda iawn i Mr Allan Wynne Jones, ac i'w wraig Enid yn eu cartref newydd ar lan y Fenai.

Ysgol Bro Hyddgen wins the UNESCO award

29

Mr Allan Wynne Jones gyda'r prif ddisgyblion yn annerch y disgyblion

Mr Allan Wynne Jones with the head pupils speaking to the pupils



Ysgol Bro Hyddgen is proud to have won the UNESCO award recently, for all the work undertaken across the key stages in promoting peace, sustainable development and global citizenship. In 180 countries globally, 10000 schools have won the UNESCO accreditation, winning this award reflects the commitment and hard work which happens across the school and throughout the year in developing understanding and commitment of the learners towards these principles.

Learners from the school have worked with learners from Greece to complete work developing understanding of ecosystems including the Biosffer Dyfi ecosystem. In addition artists and musicians from the Basque country have worked with the school over the last year. Also, amongst many other projects, the school has worked with Mach Maethlon to grow plants locally which may be eaten.

Recently, an assembly took place at the school, and the UNESCO certificate was presented to the head pupils by Mr Allan Wynne Jones. Mr Allan Wynne Jones and Mr Andy Rowland from Ecodyfi's support was much

appreciated by the school when the process of applying for this award was being undertaken. This assembly was also an opportunity for the school to thank Mr Allan Wynne Jones, who will be moving from the area for all his support, vision and hard work over the years; he was a governor and Chairperson of the Governing Body of Ysgol Gynradd Machynlleth for many years, and he has also been Chairperson of Ysgol Bro Hyddgen's Governing Body. The school wish Mr Allan Wynne Jones, and his wife Enid, well in their new home in Anglesey.

30

Eisteddfodau Cylch Bro Ddyfi
Campws Cynradd

Eisteddfod Gylch yr Urdd

Hyfryd iawn oedd gweld cymaint o blant o'r ysgol yn mwynhau cystadlu yn y cystadlaethau llefaru, canu ac offerynnol. Mae'r ysgol yn cydnabod ymdrech pob un ac yn arbennig felly'r canlynol ddaeth i'r llwyfan:

Disgybl	Cystadleuaeth	Safle
Daisy Oldham	Unawd Bl 2 ac Iau	Cyntaf
Eowyn Vaughan	Unawd Bl 6 ac Iau	Trydydd
Mabon Jones	Unawd Piano Bl 6 ac Iau	Cyntaf
Betstan Behnan	Unawd Piano Bl 6 ac Iau	Ail
Cae Knight	Unawd Pres Bl 6 ac Iau	Ail
Lucy Callow	Unawd Chwythbrennau Bl 6 ac Iau	Cyntaf
Erin Erch Rhys	Unawd Chwythbrennau Bl 6 ac Iau	Ail
Bl 5 & 6	Parti Llefaru Blwyddyn 6 ac Iau	Trydydd

Eisteddfod Sir yr Urdd

Cafodd pawb ddaeth yn gyntaf neu ail yn yr Eisteddfod Gylch gystadlu yn yr Eisteddfod Sir gynhaliwyd yn y Drenwydd ddydd Sadwrn, 17 Mawrth. Yno llwyddodd Erin Erch Rhys i ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Unawd Chwythbrennau i unigolion yn Bl. 6 ac Iau. Llongyfarchiadau mawr iawn iddi hi a phob lwc iddi yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn Llanelwedd ym mis Mai.

Urdd Local Eisteddfod

It was wonderful to see so many from the school eagerly competing in the Urdd Local Eisteddfod held in Glantwymyn on Friday 9 March. The school recognises every child's effort and in particular the following who reached the stage:

Pupil	Competition	Prize
Daisy Oldham	Singing: Year 2 and Younger	First
Eowyn Vaughan	Singing: Year 6 and Younger	Third
Mabon Jones	Year 6 and Younger Piano Recital	First
Betstan Behnan	Year 6 and Younger Piano Recital	Second
Cae Knight	Year 6 and Younger Brass Recital	Second
Lucy Callow	Year 6 and Younger Woodwind Recital	First
Erin Erch Rhys	Year 6 and Younger Woodwind Recital	Second
Year 5 & 6	Year 6 and Younger Reciting Party	Third

Urdd County Eisteddfod

Everyone who came first or second in the Local Eisteddfod were invited to compete in the County Eisteddfod which was held on Saturday 17 March where Erin Erch Rhys took first prize in the Woodwind competition for Year 6 and Younger pupils. The school would like to congratulate her and wish her well in the National Eisteddfod which will be held in Builth-Wells in May.



Eisteddfod Ddawns Cylch Bro Ddyfi Campws Cynradd




Llwyddiant yn yr Eisteddfod Ddawns

Llwyddiant yn yr Eisteddfod Ddawns

Bu nifer sylweddol o blant y Campws Cynradd yn ymarfer yn selog ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod Ddawns yr Urdd, gynhaliwyd nos Fercher, 7 Chwefror. Hoffa'r staff ar y campws ddiolch yn fawr i Stephanie Morris am wirfoddoli o'i hamser i hyfforddi'r dawnsywyr ifanc a brwdfrydig hyn. Mae Stephanie yn fyfyrwraig yn y Chwched Dosbarth ac mae i'w chanmol am ei chyfraniad diflino a siriol i brofiad allgyrsiol y plant iau. Dan ei harweiniad hi, ffurfiwyd dau grŵp: Bro Hyddgen A a Bro Hyddgen B a chafwyd cystadleuaeth iach ar y noson. Llongyfarchiadau mawr i Bro Hyddgen A a aeth ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Rhanbarth a gynhaliwyd nos Fercher, 7 Mawrth, yn y Drenewydd.

Urdd Dancing Eisteddfod

During this term a number of pupils have been practicing towards competing in the Local Dance Eisteddfod which was held on Wednesday 7 February. The staff would like to thank Stephanie Morris for volunteering and giving her time to teach the young enthusiastic dancers. Stephanie is a 6th form student and should be commended for her commitment to provide a worth while extracurricular experience for the children. Two groups were formed under her leadership: Bro Hyddgen A and Bro Hyddgen B. Congratulations to Bro Hyddgen A who went on to compete in the County Eisteddfod on Wednesday 7 March in Newtown.



Decathlon Dan Do / *Indoor Decathlon*

33



Decathlon Dan Do

Ddydd Gwener, 2 Chwefror, cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 brofiadau gwych wrth gymryd rhan yn y Decathlon dan do yn y Ganolfan Hamdden. Roedd dros 100 o blant o ysgolion y Clwstwr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau athletaidd amrywiol e.e. naid hir, naid driphlyg, taflu a gwibio. Roedd hi'n gyfle arbennig i'r holl ddisgyblion roi cynnig ar ystod o weithgareddau a mireinio a gwella eu perfformiadau. Diolch yn fawr i Jonathan Roberts, y Swyddog Datblygu Chwaraeon Cymunedol, am drefnu'r diwrnod hwn ac i ddisgyblion y Campws Uwchradd fu'n cynorthwyo yn ystod y dydd. Diwrnod gwerth chweil i bawb!



Indoor Decathlon

Year 5 and 6 pupils attended Bro Dyfi Leisure Centre on Friday 2 March in order to take part in the Indoor Decathlon. Over a 100 of the catchment pupils took part in a range of athletics including long jump, triple jump and sprinting. Thank you to Jonathon Roberts, the Community Sport Development Officer for arranging the day and also to the Secondary pupils who helped during the day. A wothwhile day was had by all!

34 Eisteddfod yr Urdd 2018

Campws Uwchradd

Ddydd Sadwrn, 10 Mawrth, cynhaliwyd Eisteddfod Uwchradd ac Aelwydydd yr Urdd yn Neuadd y Banw, Llangadfan. Cafwyd cynrychiolaeth dda o Fro Hyddgen yn y rhagbrofion gyda nifer fawr o ddisgyblion yn cyrraedd y prif lwyfan. Roedd ambell fyfyrwr o'r chweched dosbarth yn brysur tu hwnt yn diwrnod hwnnw gan gystadlu mewn dwy eisteddfod – un yn sir Feirionnydd a'r llall ym Maldwyn wrth iddynt gynrychioli'u haelwyd a'u hysgol. Gwelwyd lluo o wobrau yn cael eu cyflwyno i ddisgyblion yr ysgol a phob un a gipiodd y wobwr gyntaf yn edrych ymlaen yn arw at gynrychioli'r rhanbarth yn Llanelwedd yn ystod wythnos hanner tymor y Sulgwyn. Diolchwn yn fawr i bawb am eu gwaith caled yn paratoi'r disgyblion yng nghanol prysurdeb y tymor a llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu llwyddiant.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD UWCHRADD AC AELWYDYDD YR URDD

Unawd Merched Bl. 7-9: 1af Begw
 Cyflwyno Alaw Werin Bl. 7-9: 2il Begw
 Llefaru Unigol Bl. 7-9: 1af Mari Fychan 2il Beca Harding
 Unawd Cerdd Dant Bl. 7-9: 1af Begw 2il Branwen
 Unawd Bechgyn Bl. 10 a dan 19: 1af Lewys (Meirionnydd)
 Unawd Merched Bl. 10 a dan 19: 1af Mared (Meirionnydd)
 Unawd Bechgyn Bl. 10 a dan 19: 2il Celt John
 Deuawd Bl. 10 a dan 19: 1af Lewys a Mared (Meirionnydd)
 Unawd Alaw Werin Bl. 10 a dan 19: 1af Lewys (Meirionnydd)
 3ydd Mared (Meirionnydd)
 Monolog Bl. 10 a dan 19: 2il Mared (Meirionnydd)
 Deuawd Cerdd Dant Bl. 7-9: 1af Branwen a Non
 Deuawd Bl. 7-9: 1af Lisa a Mari 2il. Efa a Gwenllian
 Ensemble Lleisiol Bl. 7-9: 2il Non, Branwen, Mari
 Unawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19: 1af Malen Aeron

On Saturday 10th March the Secondary Eisteddfod was held in the Banw Hall, Llangadfan. There was a good representation from Ysgol Bro Hyddgen in the prelims with many of the pupils reaching the main stage. A few students from the sixth form were very busy throughout the day in competing in two Eisteddfods; Montgomeryshire and Meirionnydd as they were competing for their local area and their school. There were a range of awards which were presented to the pupils of the school and their local areas. The pupils who were successful in first place are looking forward to representing the area in Llanelwedd during the May half term. We would like to thank everyone for their hard work in preparing the pupils during such a busy term and to congratulate everyone on their success.

Deuawd Bl. 10 a dan 19: 1af Glain a Tegan
 Ensemble Lleisiol Bl. 10 a dan 19: 1af Alaw, Tegan a Glain
 Unawd Pres Bl. 10 a dan 19: 1af Cerys Hughes (Meirionnydd)
 Parti Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 1af Ysgol Bro Hyddgen
 Côr Cerdd Dant Bl. 13 ac iau: 1af Ysgol Bro Hyddgen
 Unawd Merched Bl. 10 a dan 19: 2il Glain 3ydd Tegan
 Unawd o Sioe Gerdd Bl. 10 a dan 19: 2il Malen 3ydd Glain
 Dawns hip-hop/ Stryd/ Disgo Bl7,8,9: 2il Ruby Hunnisset
 3ydd Gwenllian Mason
 Unawd Alaw Werin Bl. 10 a dan 19: 1af Glain 2il Malen
 3ydd Tegan



Eisteddfod yr Urdd 2018

Campws Uwchradd

35



Rhaglen Uwchadran Bro Ddyfi 2018

Mae croeso i unrhyw un i fynnychu gweithgareddau Uwchadran Bro Ddyfi. Mae'r gweithgareddau yn cael eu cynnal bob nos Fercher. Cwrdd yn ystafell 14.

There is a warm welcome to anybody to attend the Urdd Bro Ddyfi Uwchadran activities. They are held every Wednesday. Meet in room 14.

Gwyliau'r Pasg

- | | |
|------------|---|
| 18 Ebrill | Gweithdy Ukelele gyda Dylan Penri, Menter Maldwyn - £1 |
| 25 Ebrill | Noson o greu Pizza's - <u>£1</u> |
| 9 Mai | Noson o loga gyda Lisa Markham - <u>£1</u>
(<i>croeso i staff aros hefo hefyd</i>) |
| 23 Mai | Gemau gyda David Oliver |
| 13 Mehefin | Noson Cymorth 1af - <u>£1</u> |
| 27 Mehefin | Gemau Iard / Helfa fforio (<i>scavenger hunt</i>) |
| Gorffennaf | Trip yr Uwchadran – (<u>Côst</u>) |

Gwyliau'r Haf

36

Celf a Chrefft Uwchradd

Mae dyddiad Celf a Chrefft Uwchradd ar agor hyd at wythnos olaf mis Ebrill. Felly manteisiwch ar y cyfle, ac ymunwch yn yr hwy! Mae cyfle i chi greu darnau o waith adref yn eich amser hamdden, neu beth am ddefnyddio amser cinio ac amser egwyl yn yr ysgol? Os oes diddordeb, dewch i weld Mrs Hughes, ystafell 14.

The Secondary Art and Craft date is open until the last week in April. So take advantage of the opportunity, and join in the fun! There is an opportunity for you to create pieces of work at home at your own leisure, or during lunch time and break time at school. If you are interested, come and see Mrs Hughes, room 14.

Awydd cystadlu yn y cystadleuthau celf a chrefft eleni? Dyma'r manylion..... / Here are the details

THEMA: CHWEDLAU

Gwaith Lluniadu 2D

Cyflwyno gwaith lluniadu mewn un neu gyfuniad o gyfryngau megis y cyfryngau canlynol: Paent, pensil, creon, pastel neu inc i fesur dim mwy na 760mm x 560mm.

179. Lluniadu 2D Bl.7,8 a 9

180. Lluniadu 2D Bl.10 a dan 19 oed

Gwaith Creadigol 2D

Cyflwyno gwaith mewn cyfuniad o gyfryngau megis collage teils neu fosaig

i fesur dim mwy na 760mm x 560mm.

195. Creadigol 2D Bl.7,8 a 9

196. Creadigol 2D Bl.10 a dan 19 oed

Dyluniad 2D

Cyflwyno gwaith ar gyfer gwaelod bwrdd sglefrio, hwyfwrdd neu fwrdd eira mewn unrhyw gyfrwng. Ni ddylid cyflwyno gwaith sydd yn fwy na 560mm x 760mm.

210. Dyluniad 2D Bl.7,8 a 9

211. Dyluniad 2D Bl.10 a dan 19 oed

Dylunio Dwyieithog

Creu poster neu hysbyseb dwyieithog gan ddefnyddio rhaglen PDF, Adobe neu Publisher ar unrhyw destun. Rhaid sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei amlygu unai uwchben neu i'r chwith o'r testun Saesneg.

212. Dylunio Dwyieithog Bl.10 a dan 19 oed

213. Dylunio Dwyieithog 19 – 25 oed

Graffeg Cyfrifiadurol

Gwaith gwreiddiol wedi'i wneud ar gyfrifiadurol a'i argraffu ar bapur safonol ffotograffiaeth (ni chaniateir defnyddio clip lun / clip art) i fesur dim mwy na 760mm x 560mm. Ni chaniateir mowntio'r gwaith.

216. Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7, 8 a 9

217. Graffeg Cyfrifiadurol Bl.10 a dan 19 oed

Ffotograffiaeth a Graffeg Cyfrifiadurol

Cyfuniad o waith ffotograffiaeth a graffeg cyfrifiadurol e.e. gan ddefnyddio sganiwr a chamera digidol i greu un darn o waith gorffenedig yn mesur dim mwy na maint A4 wedi'i gyflwyno ar bapur safonol ffotograffiaeth. *Rhaid cynnwys y llun gwreiddiol gyda'r darn gorffenedig*

219. Ffotograffiaeth a Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7, 8 a 9

220. Ffotograffiaeth a Graffeg Cyfrifiadurol Bl.10 a dan 19 oed

Ffotograffiaeth

Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar bapur neu gerdyn tenau du. Ni ddylai maint y llun fod yn fwy na maint A4. Lle bo gofyn am gyfres o brintiau caniateir i bob un llun unigol o fewn i'r gyfres fesur hyd at faint A5. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth a ni chaniateir llungopio.

Print Monocrom

Un print yn unig yn seiliedig ar y thema i bob oed.

Gwobr: Tlws Coffa Ted Breeze Jones am y print monocrom gorau yn yr adran.

224. Print Monocrom Bl.7,8 a 9

225. Print Monocrom Bl.10 a dan 19 oed

Print Lliw

Un print yn unig yn seiliedig ar y thema i bob oed.

229. Print Lliw Bl.7,8 a 9

230. Print Lliw Bl.10 a dan 19 oed

Cyfres o Brintiau Monocrom

Cyfres i 4 print yn seiliedig ar y thema i bob oed.

234. Cyfres o Brintiau Monocrom Bl.7,8 a 9

235. Cyfres o Brintiau Monocrom Bl.10 a dan 19 oed

Cyfres o Brintiau Lliw

Cyfres i 4 print yn seiliedig ar y thema i bob oed.

239. Cyfres o Brintiau Lliw Bl.7,8 a 9

240. Cyfres o Brintiau Lliw Bl.10 a dan 19 oed

Argraffu

Cyflwyno gwaith mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau ac eithrio ffabrig. Derbynnir techneg sgrin neu argraffu oddi ar unrhyw arwynebedd, e.e. leino, pren, plastig a metel. Ni ddylid cyflwyno gwaith sydd yn fwy na maint papur 560mm x 760mm.

244. Argraffu Bl.7, 8 a 9

245. Argraffu Bl.10 a dan 19 oed

Argraffu/Addurno ar Ffabrig

